

Wythnos Ffoaduriaid – dau ddewis

Bydd nifer o weithgareddau'n cael eu cynnal ar draws gwledydd Prydain i nodi [Wythnos Ffoaduriaid](#) yr wythnos hon (20–26 Mehefin). Ond, yn fwy na'r digwyddiadau eleni, fe fydd pobl yn mynd i'r afael â darparu mewn gwirionedd ar gyfer ffoaduriaid sydd wedi eu cartrefu yn ein plith o dan gynlluniau fisa llywodraeth y Deyrnas Unedig yng nghartrefi unigolion ac o dan gynllun croeso Llywodraeth Cymru.

Mae nifer helaeth o deuluoedd o Syria ac o Affganistan wedi eu cartrefu eisoes yng Nghymru. Erbyn hyn mae canolfannau croeso Llywodraeth Cymru ar gyfer ffoaduriaid o Wcráin yn llawn, a rhagor yn dal i gyrraedd dan nawdd unigolion sy'n agor eu cartrefi neu'n darparu llety ar eu cyfer.

Fe fydd awdurdodau lleol Cymru yn gweithio ar hyrwyddo grwpiau lleol i gynnig cefnogaeth i'r teuluoedd hyn, ac mae nifer o hybiau lleol wedi eu hagor mewn eglwysi a chaffis a siopau ledled Cymru. Mae'r rhain yn rhoi cyfle i ffoaduriaid gyfarfod ei gilydd a thrafod eu hanghenion, yn ogystal â rhoi cefnogaeth i'r rhai sy'n eu lletya. Mae angen ystyried y myrdd o ofalon sydd gan y rheini wrth iddyn nhw geisio integreiddio'r ffoaduriaid o dan eu gofal i mewn i'n systemau addysg, iechyd a lles. A oes cyfle i chi fod yn rhan o hyn yn eich ardal leol?

Tra bo cymaint o ewyllys da yn bodoli yma yng Nghymru tuag at deuluoedd o Wcráin a llefydd eraill sydd wedi colli cymaint, yr oedd llywodraeth Prydain yn parhau yr wythnos diwethaf yma â'r bwriad i anfon yr awyren gyntaf o geisiwyr lloches sydd heb gyrraedd Prydain dan y systemau swyddogol i ganolfan gadw yn Rwanda. Talwyd £500,000 wrth drefnu'r awyren ac yr oedd 130 o bobl i fod ar ei bwrdd. Ond, erbyn dydd Mawrth, 13 Mehefin, pan oedd hi i fod i hedfan, nid oedd ond saith i fod arni. Erbyn y noson honno, yr unfed awr ar ddeg megis, yr oedd Llys Hawliau Dynol Ewrop wedi camu i'r adwy gan ddeddfu ar



Llun: Hawfraint/UNHCR/OIM

Mawrth 2022: Yr UNHCR yn helpu ffoaduriaid sy'n dianc o Wcráin i symud o Moldova i fan diogel yn Romania.

achos un ohonynt, a hynny wedyn yn agor y ffordd i archwilio achosion y gweddill hefyd, a neb am y tro yn gorfod wynebu'r daith i Rwanda.

Cafwyd straeon yn y wasg gan rai o Iran, Albania a Fietnam oedd i fod ar yr awyren gyntaf hon i Rwanda sy'n rhan o gynllun pum mlynedd. Fe sonion nhw i gyd am amgylchiadau eu ffoi a'u bod wedi gwneud hynny ar boen eu bywydau. Yr oedd lefel y pwysau a deimlent bellach oherwydd y bwriad i'w hanfon i Rwanda yn enfawr. Fe blediodd arglwyddiysbrydol Tŷ'r Arglwyddi ar lywodraeth Prydain i ollwng y bwriadau hyn, ac mae myrdd o brotestiadau, deisebau a datganiadau wedi eu gwneud gan arweinwyr crefyddol a seciwlar.

Fe ymddengys bod gennym fel gwledydd yr ynysoedd hyn ddau ddewis, a'r ddau ddewis yn amlygu'r gwahaniaeth rhwng y 'defaid a'r geifr' ar y dydd olaf, yn ôl lesu: rhwng y rhai 'roddodd groeso i mi pan doeddwn i ddim yn nabod neb', a'r rhai na welodd yr angen ac na roddodd groeso na dim ymgeledd iddyn nhw (Mathew 25:31–46). Mae'r gerdd a gyfieithwyd yma'n amlygu'r ddwy agwedd hynny. Daliwn ninnau ati i bledio achos y dieithryn yn ein plith ac i wneud hynny am fod lesu yn ei gariad drosom i gyd yn ein cymell i'r gwaith: 'beth bynnag wrthodoch chi ei wneud i helpu'r un lleiaf pwysig o'r rhain, gwrthodoch chi ei wneud i mi'.

Gol.

Ffoaduriaid

Dydyn nhw ddim angen ein help ni
Felly peidiwch â dweud wrtha i
Byddai'r wynebau dagreuol, llawn gofid,
yn eiddo i ni
Petai bywyd wedi bod yn wahanol
Rydyn ni angen gweld pwy ydyn nhw
mewn gwirionedd
Yn cymryd mantais o bawb a phopeth
Yn cymryd popeth gân' nhw am ddim
Â bomiau o gwmpas eu gwregysau
A chyllyll miniog dan eu cotiau
Lladron, llofruddion,
Ysbeilwyr, twyllwyr
A dweud nad oes croeso a lloches yma
Eu hanfon yn ôl adref
Nid
Rhannu ein bwydydd blasus
Rhannu ein cartrefi moethus
Rhannu ein gwlad heddychlon
Mae angen ailfeddwl
Rhaid adeiladu clawdd enfawr i'w cadw
nhw allan
Dydi o ddim yn deg dweud
Dyma bobl 'run fath â chi a fi
Ar gyfer y rhai gafodd ei geni ynddi y mae
gwlad
Peidiwch â bod mor wirion â meddwl
Gellir edrych ar ein byd trwy lygaid
gwahanol

Beth am ddarllen y gerdd o'r gwaelod i'r top y tro hwn?

(Cyfieithiad Geraint Jones, Treffynnon, o 'Refugees', Brian Bilston's Poetry Laboetry: From Ideation to Poemification)

Eiddo Eglwysig – capeli, eglwysi a thai

Mae'n gyfnod prysur i'r sawl sy'n gyfrifol am eiddo eglwysig yng Nghymru. Crynhoir y materion cyfredol yma. Darperir gwybodaeth fwy manwl i swyddogion eiddo enwadol yn ôl yr angen. Dylai unrhyw un nad yw'n derbyn yr wybodaeth hon ac sy'n dymuno gwneud hynny gysylltu â Gethin Rhys ar gethin@cytun.cymru

- Wrth ymateb i ddatl awr o hyd yn y Senedd ar 23 Mawrth 2022 am ddyfodol adeiladau crefyddol yng Nghymru, cyhoeddodd Dawn Bowden AS, Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon yn Llywodraeth Cymru, ei bwriad i adolygu'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Addoldai Hanesyddol yng Nghymru. Arweinir yr adolygiad hwn gan CADW a Fforwm Addoldai Hanesyddol Cymru. Cynrychiolir Cytûn a llawer o aelod enwadau ar y Fforwm, ynghyd ag Addoldai Cymru, Ymddiriedolaeth Genedlaethol yr Eglwysi, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru a mudiadau eraill priodol. Mae union ffurf yr adolygiad yn cael ei drafod ar hyn o bryd, a bydd Cytûn yn rhoi cyhoedduswydd i bob cyfle i gymryd rhan yn y drafodaeth gyhoeddus bwysig hon.

- Yn Araith y Frenhines ym mis Mai 2022, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei bwriad i gyflwyno ac ymgynghori ar fil drafft i greu Dyletswydd Diogelu, er gosod dyletswyddau ar berchnogion adeiladau sydd ar agor i'r cyhoedd i gymryd camau i gadw defnyddwyr yr adeilad yn ddiogel rhag ymosodiadau terfysgol. Ymatebodd Cytûn, Gwasanaeth Cynghori ar Ddeddfwriaeth yr Eglwysi (CLAS) a nifer o enwadau i'r ymchwiliad, pob un yn mynegi pryder ynghylch y beichiau cyfreithiol posibl y gellid eu gosod, yn enwedig y sawl sy'n rheoli adeiladau sydd yn nwylo cynulleidfaoedd bychain sy'n annhebygol o fod yn dargedau terfysgol. Mae Cytûn yn gweithio gyda'r Swyddfa Gartref, ei Grŵp Hyfforddiant Diogelwch Ffydd, i godi llais eglwysi Cymru.

- Agorodd rownd ddiweddaraf Cynllun Ariannu Diogelwch Gwarchodol Addoldai



Bethabara, Crughywel

© Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
<https://addoldai.cymru.cymru/gallery/>
Ateynhychwyd gyda chaniatâd



Bethel, Aberystwyth

ar gyfer Cymru a Lloegr ar 19 Mai a bydd yn cau ar 14 Gorffennaf. Mae'n cynorthwyo gyda chostau offer a gosod mesurau diogelwch, a chostau cynnal a chadw am flwyddyn o'r dyddiad gosod.

- Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd yn gohirio gweithredu Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 tan Ragfyr 1 eleni. Mae'r papur briffio ar ein gwefan wedi'i ddiweddarau yn unol â hynny, ac i nodi bod testun Saesneg (ond nid testun Cymraeg) y Ddeddf ar legislation.gov.uk bellach wedi'i ddiweddarau. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn berthnasol i bron bob eiddo preswyl yng Nghymru a feddiannir gan rywun heblaw'r perchennog – nid yn unig tenantiaid sy'n talu, ond hefyd y rhai sy'n byw mewn cartref sy'n gysylltiedig â'u gwaith. Mae nifer o'n haelod enwadau wedi derbyn cyngor cyfreithiol am oblygiadau'r Ddeddf ar gyfer tai i glerigwyr mewn eiddo eglwysig; mae'r cyngor hwnnw wedi amrywio o enwad i enwad. Mater i bob enwad neu gorff ymddiriedolwyr priodol yw ceisio a gweithredu cyngor cyfreithiol sy'n berthnasol i'w sefyllfa.

- Mae Cytûn wedi derbyn gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru yn cadarnhau nad yw clerigion a gweithwyr eglwysig sy'n byw mewn eiddo eglwysig, gyda'r eglwys (yn hytrach na'r gweinidog) yn gyfrifol am dalu Treth y Cyngor, yn gymwys ar gyfer Cynllun Cymorth Costau Byw Llywodraeth Cymru, hyd yn oed os ydynt yn gyfrifol am dalu biliau ynni'r eiddo. Mae'r Llywodraeth yn awgrymu y dylai clerigion yn y sefyllfa honno wneud cais i'r Cynllun Cymorth Disgresiynol ar gyfer Costau Byw a weinyddir gan eu hawdurdod lleol.

([O Fwletin Polisi Cytûn, Mehefin/Gorffennaf](#))

Gair gan Cytûn ar drothwy Wythnos Ffoaduriaid

Gan Aled Edwards, Prif Weithredwr

Eleni, cafwyd bendith aruthrol drwy law Aled a Delyth Davies yn Eisteddfod yr Urdd ym Mro Dinbych. Diolch o galon i'r ddau am ddarparu croeso mor odidog i blant Cymru.

Profiad rhyfeddol oedd cael croesawu ffoaduriaid o Afghanistan i'r maes ger Dinbych. Bellach, mae sawl teulu wedi cartrefu yng ngogledd-ddwyrain Cymru. Yn rhyfeddol, fe ddywedodd un o'r plant wrth adael y maes taw ymweliad â'r Eisteddfod yr Urdd oedd profiad gorau ei bywyd. Ar eu liwt eu hunain, y diwrnod canlynol, daeth nifer o deuluoedd yn eu holau i'r maes gan gymaint y croeso a dderbyniwyd yno.

Ar drothwy Wythnos Ffoaduriaid mae'r eglwysi a'u partneriaid yn gweithio yn y modd mwyaf rhyfeddol i groesawu pobl fregus i'n plith.

Cafwyd ar ddeall yn y cyfamser na fydd Llywodraeth Cymru yn derbyn mwy o ffoaduriaid o Wcráin i'r canolfannau croeso sydd ganddynt ledled Cymru. Y mae'r canolfannau bron yn llawn a rhaid darparu'n briodol ar gyfer y rhai sydd eisoes ynddyn nhw. Fe lwyddodd Cymru a'r Alban i weithredu fel uwch noddwyr.

Roedd Cyfarfod Blynyddol Cytûn ddechrau Mehefin yn achlysur rhyfeddol o braf. Er nad ydym yn cyfarfod yn gorfforol, cafwyd bendith o sgwrsio â'n gilydd, croesawu aelodau newydd a chlywed am waith rhyfeddol yn lleol ar hyd a lled Cymru. Mae Cytûn yn gorff sy'n tyfu. Rhoddwyd croeso yn y cyfarfod i gymdeithas sy'n hyrwyddo mabwysiadu o bersbectif Cristnogol, a da o beth oedd derbyn enwad o gefndir y Brethren i'n cwmni yn ogystal, gan ehangu'r amrywiaeth Cristnogol sydd oddi mewn i Cytûn. Fe adroddodd Cymorth Cristnogol a Chyngor Ysgolion Sul Cymru am eu sefyllfa ar hyn o bryd a'u cynlluniau diweddaraf, a da oedd clywed hynny.

Ymddiheuriad

Yn yr adroddiad o weithgaredd Cymorth Cristnogol yng nghylch Llanbedr Pont Steffan yn rhifyn 68 o [Cenn@d](#), fe gafwyd dau lun ar waelod yr erthygl o dan y teitl, Bore Coffi Eglwysi Plwyf Pencarreg yng Nghanolfan Cwm-ann, 16 Mai. Fe ddygwyd i'n sylw mai lluniau ydynt o'r Brecwast Mawr yn Festri Capel Brondeifi, Llanbed, 19 Mai, ac mai Mari McNeill a Tom Defis sydd yn yr ail lun yn mwynhau'r brecwast. Garw gennym am yr amryfusedd hwn. Gol.

Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru yn edrych yn ôl ar y flwyddyn – ac ymlaen i'r dyfodol



Simon Walkling



Helen Cameron

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor ar 24 Mai 2022 yn rhithiol drwy gyfrwng Zoom. Dechreuwyd gyda gair o groeso a chafwyd defosiwn byr gan y Llywydd, y Parchedig Simon Walkling. Yn ei fyfyrdd soniodd am yr undeb trefniadol organig – yr eglwys unedig a'r angen am ostyngeddwrdd yn ein bywyd eciwmenaidd.

Y prif bwynt oedd angen sylw o'r cofnodion oedd ymateb i ddogfen ddrafft ar Weinidogaeth Bro. Gobeithir edrych ymlaen i'r dyfodol gyda chanolfannau a threfniant eciwmenaidd yn bodoli.

Cafwyd adroddiad gan y Llywydd am ei weithgareddau ers y cyfarfod diwethaf, gan nodi ei fod yn cynrychioli'r Eglwysi Rhyddion ar Fforwm Cymunedau Ffydd. Roedd wedi mynychu gwasanaeth gorseddu'r Parchedig John Lomas yn Esgob Abertawe ac Aberhonddu, a chynrychiolwyd y Cyngor gan Rheinallt Thomas yng ngwasaneth gorseddu'r Gwir Barchedig Andrew John fel Archesgob Cymru yng Nghadeirlan Bangor. Mynegodd y Llywydd ei ddiolchgarwch am y cydweithio rhwng y Cyngor a Cytûn, a chafwyd adroddiad gan Gethin Rhys ar waith Cytûn. Tynnodd sylw at dri pheth o ddiddordeb:

- i) cynhadledd ar-lein EcoEglwys ar 30 Mehefin;
- ii) mae Cadw a rhai enwadau bellach yn cydweithio ar natur hanesyddol henebion Cymru dan arweiniad Susan Fielding. Mae'n ofid fod hanes eglwysi'n mynd ar goll, ac felly cyn eu dymchwel

neu newid eu gwedd byddai'n dda cael lluniau ffotograffig ohonynt;

- iii) mae trefniadau ar y gweill rhwng ysgrifenyddion yr enwadau i gyfarfod ag Esgob Rowan Williams a Laura McAllister o'r Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru.

Mae'r grŵp hyfforddiant, dan gadeiryddiaeth yr Athro Eryl Wynn Davies, yn cyfarfod yn rheolaidd. Mynegwyd consŷrn am achredu hyfforddiant diwinyddol Cymraeg.

Derbyniwyd adroddiad addysg gan Vaughan Salisbury. Tynnodd ein sylw at Ddogfen Canllawiau Cwricwlwm i Gymru – Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Bydd cwricwlwm newydd yn cael ei gyflwyno mewn ysgolion cynradd ym mis Medi ac yn yr ysgolion uwchradd ym Medi 2023. Cafwyd trafodaethau trwyadl ar ofidiau amlwg nad oes digon o adnoddau Cymraeg i gefnogi athrawon gyda'r maes llafur newydd. Gwelwyd bod cyfle i eglwysi i fanteisio ar gyfle i agoreu drysau i esbonio'r gwahaniaethau rhwng yr enwadau. Awgrymwyd creu adnodd digidol o'r papur 'Cysylltu Eglwysi ac Ysgolion', a fyddai'n ddefnyddiol i athrawon yn y Gymraeg.

Yn ei adroddiad, dywedodd y Parch. Aled Davies fod cyfle eleni i ailgysylltu â'r cyhoedd eto trwy fod yn bresennol yn Eisteddfod yr Urdd, yr Eisteddfod Genedlaethol a Sioe Fawr Llanelwedd. Bydd Cyngor yr Ysgolion Sul yn trefnu taith o gwmpas Cymru o ganol Gorffennaf

hyd fis Medi er mwyn cael cyfle i gwrdd ag arweinydd eglwysi.

Roedd yr adroddiadau o'r enwadau'n gymysg o lawenydd a thristwch. Roedd rhai eglwysi'n galonogol eu hagwedd ac wedi ailddechrau eu gwasanaethau yn llawn brwdfrydedd. Serch hynny, roedd yn amlwg bod y pandemig wedi achosi anawsterau, gyda rhai capeli heb ailagor ac eraill wedi cau drysau. Bu eglwysi'n cynnal gwasanaethau yn rhithiol, gan ddarganfod ffyrdd newydd o gyhoeddi neges yr Efyngyl.

Derbyniwyd cyfarchion gan Grŵp Eglwysi Rhyddion Lloegr a gwerthfawrogwyd y cydweithio rhwng y ddau Gyngor. Mynegodd y Llywydd newydd, y Parchedig Helen Cameron, ei hawydd i ddod i Gymru ac i'n cyfarfod nesaf.

*Helen M Jones
Ysgrifennydd*

Medalau Gee 2022

Cofiwch mai 30 Mehefin yw dyddiad cau derbyn enwebiadau ar gyfer derbyn Medalau Gee ym mis Medi eleni. Mae angen i ffurflen gais (sydd ar gael o wefan www.ysgolsul.com) gyrraedd Aled Davies dim hwyrach na 30 Mehefin. Mae'r holl fanylion ynghylch gwneud cais ar y wefan – cofiwch fod ein diffiniad o 'Ysgol Sul' yn cynnwys unrhyw leoliad ac amser lle mae aelodau'n ymgasglu i drafod y Beibl, boed mewn dosbarth Beiblaidd neu seiat.

Cyfarfod Blynyddol Adran Genhadol y Chwiorydd Senana Cymru

Daeth pobl o bob rhan o Gymru ynghyd i gapel Caersalem, Cilgwyn, ger Trefdraeth, sir Benfro, ym mis Mai pan urddwyd un o aelodau'r eglwys yn Llywydd Cenedlaethol Senana Cymru – rhywbeth a ddylai fod wedi digwydd 'nôl yn 2020. Mae hanes Senana Cymru yn mynd yn ôl i 1906 ond oddi ar 1948, pan ddechreuwyd y drefn o gael y Llywydd newydd yn torri ei henw ar Feibl y mudiad, hon oedd yr wythfed waith yn unig i'r cyfarfodydd ddod i sir Benfro. Ar gyfartaledd, felly, rhyw unwaith bob deng mlynedd fydd y Llywydd yn dod o Gymanfa Penfro, ac eleni tro Bonni Davies, Penlanwynt, Cwm Gwaun, oedd hi.

Agorwyd y cyfarfod gan Anne Lapage o Ruthun, llywydd presennol y Senana, cyn i'r Parch. Alwyn Daniels, gweinidog anrhydeddus yr eglwys, estyn croeso cynnes i bawbi'roedfa. Chwechochwiorydd Caersalem, sef Joyce Evans, Enfys Howells, Menna James, Sandra Llewellyn, Marian Rogers ac Yvonne Williams fu'n gyfrifol am y defosiwn, a bu dwy arall, Meryll Roberts a Glenys Williams, yn cyflwyno emynau.

Sefydlu'r Llywydd newydd ddaeth nesaf pan dorrodd Bonni ei henw ar Feibl Senana Cymru a chael ei harwisgo â thlws aur prydfarth ar lun tywysen o wenith, wedi ei haddurno â pherlau. Tlws oedd hwn a roddwyd yn rhodd i'r Adran gan Mrs Evan Owen, a fu'n drysorydd Senana Cymru rhwng 1906 ac 1917. Cyflwynwyd Gweddi'r Urddo gan y Parch. Judith Morris, Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb Bedyddwyr Cymru, cyn i'r Llywydd newydd gyflwyno'r Is-lywydd, Menna Machreth Llwyd, Caernarfon. Estynnodd Menna groeso cynnes i baw i Gaersalem, Caernarfon, ymhen y flwyddyn, pan fyddai'r drefn o gynnal dwy oedfa yn

dychwelyd. Cyfyngwyd yr achlysur hwn i un oedfa yn unig oherwydd ansicrwydd yn dilyn y pandemig.

Pleser mawr i Bonni wedyn oedd derbyn sic o £5,860.00 o law'r Parch. Geraint Morse, i'w hanfon at Apêl Wcráin y BMS yn dilyn taith gerdded a drefnwyd ganddo.

Cyflwynwyd cyfarchion i'r Llywydd newydd ar ran Senana Cymanfa Penfro gan yr ysgrifennydd, Llinos Penfold, Mynachlog-ddu, ac ar ran Mudiad Chwiorydd Cymru gan y Llywydd, Eleri Lloyd Jones, Bangor.

Cyflwynwyd adroddiad Cymdeithas Genhadol y Bedyddwyr (BMS) gan Sarah East, Treforys, sy'n un o gynrychiolwyr Cymru ar Gyngor Cyfeiriol y BMS, ac adroddiad ar ran Senana Cymru gan yr Ysgrifennydd, y Parch. Suzanne Roberts, sy'n byw yn Newbridge, Gwent.

Gan i'r Llywydd newydd gael ei magu yn Nhrefdraeth wrth odre Carn Ingli, a byw yng nghysgod Foel Eryr am dros hanner can mlynedd ond gan barhau i fyw o fewn golwg i Garn Ingli, seiliwyd ei hanerchiad ar adnod gyntaf Salm 121, 'Dyrchafaf fy llygaid i'r mynyddoedd'. Rhannodd â'r gynulleidfa niferus brofiadau a ddaeth i'w rhan wrth fynd ar deithiau cerdded o amgylch y fferm dros gyfnod y 'Clo Mawr' yn ystod pandemig Covid-19. Daeth i sylweddoli, fel yr oedd Mynydd Carn Ingli wedi bod yn rhan o'i bywyd erioed, fod Duw hefyd wedi bod yno iddi erioed ar hyd ei thaith. Cymharodd gadernid y mynydd â chadernid ei ffydd yn Nuw gan annog y gynulleidfa, yn yr oes ansicrydyd yn byw ynddi, i fod yn gadarn fel y mynyddoedd. Anogodd y gynulleidfa hefyd, wrth iddynt godi eu llygaid i'r mynyddoedd, i godi eu



Urddo'r Llywydd Newydd (o'r chwith i'r dde): Anne Lapage, Cyn-lywydd; Bonni Davies, Llywydd; Y Parch. Judith Morris, Ysgrifennydd Cyffredinol UBC

llais i sefyll i fyny dros yr hyn sy'n gyfiawn mewn byd hynod o hunanol, gan wneud yr hyn y mae Duw am i ni ei wneud a beth mae Duw am i ni fod. Y ffordd orau o wneud hynny oedd wrth bwysio ar Dduw yn ein gweddiâu gan mai oddi yno y daw ein nerth.

Diweddodd drwy herio pawb i barhau i ddyrchafu eu llygaid i'r mynyddoedd, a chofio wrth wneud hynny o ble y daw ein cymorth; i fod yn gadarn yn ein ffydd fel cadernid y mynyddoedd; i godi llais dros yr hyn sy'n gyfiawn ac yn gywir; ac yn fwyaf arbennig ac yn bwysicaf, i aros yng nghwmni ein Gwaredwr, i siarad ag ef a gwrandao ar ei lais gan mai 'Sicrach na'r mynyddoedd / yw ei eiriau Ef'.

Y Parch. Sian Elin Thomas, gweinidog newydd Ebeneser Dyfed, y Graig, Castellnewydd Emlyn, a chaplan rhan amser Glyn Nest, ddaeth â'r oedfa i'w therfyn mewn gweddi.

Daeth prynhawn hyfryd a llawen i ben drwy gymdeithasu o gwmpas y byrddau ym Maenordy Llwyngwair, lle y dywedir i William Williams, Pantycelyn, ysgrifennu'r emyn 'Dros y brynau tywyll, niwlog' – diwedd glo addas iawn i thema'r oedfa.



Swyddogion a Chyn-lywyddion y Senana: gyda Menna Machreth, yr Is-lywydd; Bonni Davies, y Llywydd; ac Anne Lapage y Cyn-lywydd, y mae'r Cyn-lywyddion Gillian Davies, Eleri Lloyd Jones, Jan Stanley, Hazel Williams Jones, Meriel Marsh, Marlene Jenkins, Patricia Rogers, Carys Jones a Siân Arwel Davies



Y merched a gymerodd ran yn yr oedfa


Gwibdaith Cymdeithas Gweinidogion Bro'r Preseli

Dydd Mawrth, 14 Mehefin, ar ddiwrnod braf o haf cawsom daith bleserus i Abergwaun ac i ardal Pen-caer yng ngogledd sir Benfro dan arweiniad y Parch. Wyn Vittle, oedd yn ei elfen yn ein tywys ar daith o gwmpas ardal ei gynefin. Rhannodd hanesion difyr â ni am ei gefndir a'i blentyndod yn yr ardal.

Cychwynasom yng Nghaerfyrddin, ac wedi teithio ar draws gwlad i Foncath yn sir Benfro cawsom goffi yn nhafarn Trewern yn Nanhyfer. Yna, ymlaen i Abergwaun, a gweld tapestri enwog Glaniad y Ffrancod yn Neuadd y Dref a chanolfan Ein Hanes y drws nesaf. Wedi cinio ar y ffrynt wrth y môr yn Wdig, aethom ymlaen i ymweld â hen eglwys geltaidd Llanwnda, eglwys sy'n dyddio o'r chweched ganrif, gan sylwi ar y ffenestr i'r gwahangleifion, oedd yn medru edrych i mewn o'r tu allan ar yr allor, yn ogystal â gweld yr hen groesau gwahanol a'r ddwy gloch: un i gofio am Sant Padrig ar ochr y môr, a'r llall i Dewi Sant, ar ochr y tir. A gweld hefyd yr hen gartref a'r aelwyd lle maged Wyn, cartref braf, ac mewn dyddiau a fu oedd yn hen ficerdy i ficeriaid Eglwys Llanwnda.

Yna aethom ymlaen i fferm Bristgarn i weld y cloc hanesyddol â thwll y bwled yn ei ddrws oherwydd ymosodiad y Ffrancod. Diolch i Raymond a Valerie Llewelyn am eu croeso ac am agor eu cartref i ymwelwyr dros y blynyddoedd. Yn ein blaenau wedyn i fwynhau'r arfordir a golygfa o oleudy Strwmwbl cyn mynd heibio ochr ogleddol y Garn Fawr, ac yna oedi uwchben y 'dwshwn' ym Mhwllleri wrth garreg goffa'r bardd Dewi Emrys gan wrando ar y Parch. Beti-Wyn James yn darllen, yn nhafodiaith sir Benfro, ddetholiad o'r gerdd 'Pwllleri' - a'i chlo trawiadol: 'A thina'r meddilie sy'n dwad ichi / pan fo chi'n ishte uwchben Pwllleri'.

Egwyl bach wedyn am de, hufen iâ, neu deisen yng ngaffi Melin Tregwynt; browsio yn y siop, ac mor falch oeddem o ddeall bod y gweithwyr, drwy'r ymddiriedolaeth newydd a sefydlwyd, bellach yn ei berchen ac yn ei redeg. Teithiasom yn ôl wedyn i westy Llwyngwair ac wedi cael cyfarfod busnes i wneud y trefniadau ar gyfer y tymor wedi'r haf, mwynhau swper cynnar blasus yng nghwmni hwyliog ein gilydd.



Diolch i Eurig Williams, gyrrwr y bws mini ar ran cwmni Brodyr Williams, Felin-gwm, am ein cludo'n ddiogel bob cam, ac am gwmni hwyliog a chymdeithas gynnes ein gilydd ar hyd y dydd. Roedd ein diolch yn fawr i'r Parch. Tom Defis am gynorthwyo gyda'r trefniadau ac i Wyn Vittle am ein tywys ar daith mor odidog yn ardali febyd. 'Diwrnod i'r Brenin' yn wir, a chlod i'n Creawdwr am wlad ac amgylchfyd mor hardd.

*Emyr Gwyn Evans
Ysgrifennydd*



Cyflwyno sic o £317.40 i Gartref Glyn Nest

Dr Carol Williams, Person Cyfrifol y Cartref; Jayne Evans, Rheolwr y Cartref, a Mair Roberts, Ysgrifenyddes yr Apêl, yn derbyn sic drwy law Ann Bowen Morgan, cyn-Lywydd y Gymanfa. Dewis y Llywydd oedd rhoi casgliad Oedfa'r Llywydd tuag at gartref Glyn Nest. Diolch i bawb am eu cyfraniadau, a phob bendith ar waith y cartref.



O'r Beibl: 4

Cyfes ar gyfer astudiaeth
bersonol neu fel grŵp

Gair o Genesis

“Pwy ydw i? Beth yw fy hunaniaeth?”

Darllen: Genesis 1:26–31

Brawddegau sy'n cael eu hailadrodd yn gyson heddiw yw: “Bydd yn wir – yn driw – i ti dy hunan. Bydd yn pwy wyt ti go iawn.”

Ond pwy ydw i? Pwy ydw i go iawn? Pwy sydd i ddweud a phwy sydd i ateb y fath gwestiynau?

Dau opsiwn

Yr opsiwn cyntaf yw ni ein hunain. Ai ni sydd i ateb y fath gwestiwn? Ai ni sydd i ddweud pwy ydym?

Mae hyn yn dibynnu, wrth gwrs, ar y ffordd yr awn ni ati i ateb cwestiwn arall, cwestiwn sydd yr un mor bwysig â'r rhai uchod: oes yna Dduw sydd wedi fy nghreu i? Os oes, ydy e'n gwybod yn well na fi pwy ydw i? Pwy ydw i go iawn?

A dyma ni'n dod at yr ail opsiwn: Duw. Ai Duw sydd i ateb y fath gwestiwn? Ai fe sydd i ddweud pwy ydym?

Tybed pa opsiwn sy'n gwneud y mwyaf o synnwyr?

Creadur a Chreawdwr

Gadewch i ni ystyried y peth yn ofalus. Os ydy hi'n wir fod yna Dduw sydd wedi fy nghreu i, yna mae hynny'n golygu na fyddwn i hyd yn oed yn bodoli heb ei fod e wedi ewyllysio fy nghreu. Heb ei fod e wedi fy nghreu, ni fyddwn yma i ofyn y fath gwestiynau dyrys! Mae fy holl emosiynau, fy mhrofiadau, fy syniadau a'm dewisiadau yn gallu cael eu teimlo, eu profi, eu meddwl a'u dewis heddiw gan fod Duw wedi penderfynu fy nghreu.

Mae hyn, wrth gwrs, yn golygu fy mod yn gwbl ddyledus i Dduw am bopeth, gan gynnwys fy hunaniaeth. Gan mai bod sydd wedi cael fy nghreu gan Dduw ydwyf, dyma yw fy hunaniaeth fwyaf sylfaenol. Creadur ydwyfac mae creaduryn creadur oherwydd bod ganddo Greawdwr. Felly, nid rhywbeth sy'n cael ei ganfod na'i greu gennym yw ein hunaniaeth sylfaenol, ond rhywbeth sydd wedi cael ei roi i ni gan Dduw yn rhinwedd



y ffaith ein bod ni wedi ein creu ganddo. Am wirionedd ardderchog i'n rhyddhau o ddryswch beichus ein calonnau! Nid oes yn rhaid i ni chwilio'n ddiflino am hunaniaeth; mae gennym hunaniaeth yn barod.

Gwerth a Gwaith

Beth felly mae'n ei olygu i fod yn fod dynol, yn ôl ein Creawdwr? Dyma un o'r cwestiynau cyntaf mae Duw yn eu hateb yn llyfr Genesis, lle dywedir: 'creodd Duw ddyn ar ei ddelw ei hun; ar ddelw Duw y creodd ef; yn wryw ac yn fenyw y creodd hwy' (Genesis 1:26).

Beth mae'n ei olygu fod y ddynoliaeth wedi'i chreu ar 'ddelw' Duw? Yng nghyfnod yr Hen Destament, roedd pob cenedl o amgylch Israel yn gosod 'delw' o'u duwiau yng nghanol eu temlau. Bwriad y delwau hyn oedd cynrychioli eu hamryw dduwiau.

Yn wahanol i gau dduwiau'r cenhedloedd, mae'r gwir Dduw yn gwneud rhywbeth tra gwahanol. Yn hytrach na gosod ei ddelw mewn templ o waith llaw, mae ef yn creu Adda ac Efa – ac felly'r ddynoliaeth gyfan – 'ar ei ddelw ei hun'. Hynny yw, mae'n creu pobl er mwyn ei gynrychioli ef ac er mwyn iddynt fwynhau perthynas unigryw ag ef.

Mae hyn yn golygu fod gan y ddynoliaeth werth a gwaith arbennig. Yn y lle cyntaf, mae bywyd dynol yn drawiadol o werthfawr. Yn wahanol i bob creadur byw arall ar y ddaear, y ddynoliaeth yn unig sydd wedi'i chreu ar lun a delw Duw. Gan fod pob un person – pwy bynnag ydyw a lle bynnag y bo – yn cario delw'r Creawdwr, mae pob bywyd dynol yn werthfawr dros ben. Hon, wrth gwrs, yw'r athrawiaeth sy'n sylfaen

gadarn i'r egwyddor fod pob bod dynol yn gydradd â'i gilydd.

Yn ogystal â'i gwerth, mae gan y ddynoliaeth ei gwaith. Gan fod cario delw Duw yn golygu cynrychioli Duw, mae gan y ddynoliaeth waith hollbwysig.

Wedi iddo greu Adda ac Efa, y peth cyntaf mae Duw yn ei wneud ydy siarad â nhw. Pam? Oherwydd nad oes ganddynt syniad pwy ydynt na pham eu bod yn bodoli! Ond mae Duw yn egluro wrthynt: “Byddwch ffrwythlon ac amlhewch, llanwch y ddaear a darostyngwch hi; llywodraethwch ar bysgod y môr, ar adar yr awyr, ac ar bopeth byw sy'n ymlusgo ar y ddaear” (Genesis 1:28).

Dyma yw gwaith y ddynoliaeth: cynrychioli Duw drwy lywodraethu'r byd ar ran Duw. Nid fel teyrn ystyfnig, ond fel stiwardiaid gofalus. Rydym i arwain a gofalu am greadigaeth Duw ar ei ran.

Wrth gwrs, mae'r ddynoliaeth wedi methu gwneud hyn: o Adda ac Efa yn Eden, hyd y dydd hwn. Yn hytrach na chynrychioli Duw, rydym wedi troi ein cefnau arno gan feddwl ein bod yn gallu byw hebddo. Yn hytrach na stiwardio'r greadigaeth, rydym wedi ei llarpio gan feddwl mai duwiau bach ydym. Dyna pam y daeth yr Arglwydd Iesu i'r byd fel yr 'Ail Adda' (1 Corinthiaid 15:45): er mwyn gwneud yr hyn yr ydym wedi methu ei wneud, er mwyn talu'r pris am yr hyn yr ydym wedi'i wneud.

Cymhwyso

Sut mae cymhwyso'r gwirioneddau hyn i'n bywydau ni heddiw? Mae cydnabod mai creaduriaid ydym yn newid popeth. Mae'n golygu nad oes gennym ni'r gallu i ddeall dim yn llawn (ddim hyd yn oed ni ein hunain!) heb help Duw. Mae'r ffaith ein bod ni'n greaduriaid yn golygu fod yn rhaid i ni droi at ein Creawdwr i wybod beth yw ystyr a phwrpas ein bywydau – a beth yw ein hunaniaeth. Yn wir, ofer fyddai ceisio gwneud hynny hebddo.

Beth bynnag a wnawn yn ystod yr wythnos hon, beth am wneud y pethau hynny gan gofio mai creaduriaid Duw ydym? Beth am gymryd y cyfle i ddarllen penodau cyntaf Genesis eto er mwyn dysgu mwy am yr hunaniaeth ryfeddol mae Duw wedi ei rhoi i ni?

Gwilym Tudur

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol

Sul, 26 Mehefin, am 7.30yh (ailldarlledir am 11:30yb y Sul canlynol)

Huw fydd Mlaen-y-coed, Sir Gâr, bro enedigol un o emynwyr enwocaf y ganrif ddiwethaf, un a gyfansoddodd rai o'n hemynau mwyaf poblogaidd, sef Howell Elvet Lewis, neu'n fwy cyfarwydd i ni, Elfed.

Dyma gopi o [gylchlythyr Dechrau Canu, Dechrau Canmol](#) am fisoedd Mehefin a Gorffennaf.

BBC radio
cymru

Caniadaeth y Cysegr

Sul, 26 Mehefin, am 7:30yb a 4.30yp

Cymanfa Eglwys Cymraeg Canol Llundain – rhan 1: Rob Nicholls yn cyflwyno detholiad o emynau o Gymanfa Eglwys Cymraeg Canol Llundain.

Oedfa Radio Cymru

Sul, 26 Mehefin, am 12:00yp

Gwasanaeth dan ofal Densil Morgan, Llanbedr Pont Steffan



O Gefn Gwlad



Ble mae o a beth wnaeth o?

Holi yn ein cylch trafod wnes i: 'Ble mae'r Beibl yn tŷ chi?' a chael fy syfrdanu gan ateb y gyntaf o'r criw: 'Yn y sbens'. Sef ei henw hi, a'm henw innau o ran hynny, ar y twll dan staer! Lle i wthio geriach nad oes ei angen bellach iddo! Ond, o holi ymhellach, cael ar ddeall mai stafell hwylus i gadw pethau yw hwnnw yn ei thŷ hi erbyn hyn.


Ac oedd, mi roedd Beibl ym mhob tŷ, mwy nag un mewn amryw, gwahanol argraffiadau, gan gynnwys ambell Feibl Peter Williams. Neb am gael eu gwared, rhai ag ymlyniad sentimental wrtho, ond o'r neilltu yr oedd yn y rhan fwya o gartrefi, a chydig iawn o ddarllen oedd arno, yn ôl yr atebion gafwyd.

Y 'Beth wnaeth o?' yw'r cwestiwn yr oeddwn am ei gyflwyno beth bynnag, a'r cwestiwn y bu ein trafodaeth arno y Sul arbennig hwnnw, a hynny am fy mod i'n awyddus i ddweud un peth. Daw'r un peth hwnnw tua'r diwedd!

Na, nid ei drafod o safbwynt achub eneidiau, na rhoi sicrwydd bywyd tragwyddol, na newid cymdeithas ledled y byd, nid y pethau hyn oedd yn mynd â fy mryd y Sul arbennig hwnnw, ond y ffaith iddo achub yr iaith Gymraeg.

Fe ellid yn wir ddadlau mai Elisabeth I wnaeth hynny, heb iddi sylweddoli ei bod yn gwneud, wrth gwrs, a hynny trwy awdurdodi cyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg. Yr un act fawr o'i heiddo fu'n fywyd i'r iaith. Nid bod hynny yn ei hun yn ddigon. Bu'n rhaid wrth gyfieithiad coeth yr Esgob William Morgan a'i gymheiriaid i roi urddas i'r iaith; ac yna, dros y canrifoedd, gyfraniad clodwiw amryw byd o gewri ein hanes.

Gofiwch chi rai ohonyn nhw? Griffith Jones, Llanddowror, a'i ysgolion cylchynol ddysgodd ddarllen Cymraeg i filoedd; Thomas Charles a'r ysgol Sul barhaodd y traddodiad hwnnw; William Williams, Pantycelyn, boblogeiddiodd ddiwinyddiaeth a'i chyflwyno mewn iaith ddealladwy yn ei emynau i werin led anllythrennog. Hyn oll yn rhoi



statws a safle i'r Gymraeg, ac addysg ynddi, pan oedd datblygiad yr ysgolion dyddiol a digwyddiadau megis cyhoeddi adroddiad damniol y 'Llyfrau Gleision' ar addysg yn nes ymlaen, yn gwneud eu gorau i'w lladd. Ac nac anghofiwn gyfraniad hollbwysig O. M. Edwards, welodd yr ysgol Sul fel y patrwm delfrydol i addysg, yn sicr mewn cyfrwng os nad mewn dulliau.

Nid achub y Gymraeg, er y gallai hi ryw gymaint o'r iaith yn ôl y sôn, oedd bwriad Elisabeth. Na, troi o Gatholigiaeth Mary, ei hanner chwaer, i Brotestaniaeth oedd ei bwriad hi. Ac achub eneidiau, nid achub yr iaith, oedd bwriad y rhai a enwais i, ar wahân i O. M. Edwards efallai. Gwneud yr iaith yn gyfrwng a'i hachubodd. Heb yr ysgolion cylchynol a'r ysgolion Sul, a heb y capeli a godwyd ym mhob rhan o Gymru i gynnal addoliad yn yr iaith a rhoi bod i gymdeithasau o bob math, byddai wedi bod yn go ddrwg ar y Gymraeg, a go brin y byddem yn ei siarad heddiw. Byddai'n dila arni pe bai wedi dibynnu ar yr eglwys wladol hefyd, gyda llaw! Cofiw mai brad

yr eglwys honno mewn gwirionedd oedd Brad y Llyfrau Gleision!

Migrybyllais ynghynt fy mod yn awyddus i ddweud un peth. A dyma yw hwnnw: taswn i'r anffyddiwr mwya, mi faswn i'n dal i fynd i'r capel, ac i gefnogi'r 'achos', petai ddim ond er mwyn talu gwrogaeth i'r gyfundrefn – os mai dyna'r gair – a'm gwnaeth i'n Gymro Cymraeg. Ond nid yw'n gweithredu gan y mwyafrif llethol o ddinasyddion ein cenedl erbyn hyn. Onid Cymru yw'r wlad fwya ddigrefydd yn Ewrop erbyn hyn? Synnwn i ddim. Pawb bron wedi troi cefn ar yr union sefydliad a achubodd ein hiaith. Cywilydd anrom!

Elfyfyn Pritchard

(Gol. O wythnos i wythnos mae ein colofnwyr yn ein procio i feddwl. Ac mae'n sicr na fydd ein darllenwyr yn cytuno â phopeth a ddarllenant. Beth am anfon eich ymatebion atom i *Cenn@d* fel y medrwn glywed lleisiau a safbwyntiau amrywiol? Yn wir, hoffem glywed eich llais chi!)

Dyma gyfarfod hyfryd iawn 'Nid aeth o'm cof dy wyrthiau gynt'

Gwedd

O Dduw, ein dyhead heddiw ydyw am gael dy brofi: dy brofi fel ein Tad nefol, dy adnabod fel ein Gwardwr annwyl, dy brofi fel yr Ysbryd Glân a greodd nyth i ti dy hun yn y galon galed hon. Tyrd atom, Arglwydd. Amen.

Emyn 579: 'Ti yw'r un sy'n adnewyddu'

Cyflwyniad

Ychydig wythnosau yn ôl yr oeddwn yn sefyll ar lan bedd aelod hynaf ein teulu. Roeddwn yn drist, nid yn unig am y golled ei hun, ond am fod yr olaf o'i chenedlaeth wedi mynd o'n plith. Ac yn ei cholli roeddem yn colli cof teulu am linach a thras ynghyd â chyswllt ag ardal a bro.

Bu gryn drafod am [lun](#) a ymddangosodd ar wefan yr Eglwys Bresbyteraidd Cymru oedd yn dangos **carreg fedd** ac arni'r geiriau 'Heddwch i'w Lluch: Eglwys Bresbyteraidd Cymru 1811-2033'. Cyfeirio roedd y llun at erthygl oedd yn darogan diwedd EBC erbyn 2033 ynghyd â **thranc buan** enwadau traddodiadol eraill Cymru: <https://churchmodel.org.uk/2022/05/15/growth-decline-and-extinction-of-uk-churches/>

Pwy ohonom sydd ag unrhyw ots am dystiolaeth yr efengyl yng Nghymru nad yw'n gwangalonni ar brydiau wrth wrando ar leisau'r rhai sy'n brysur yn trefnu cynhebrwng Cristnogiaeth yng Nghymru?

Nid ein cenedlaeth ni yw'r gyntaf i feddwl bod beddrod gobeithion i'n ffydd wedi ei baratoi! Ac felly, da yw oedi i ddysgu gan rywrai sydd wedi brwydro ag ofnau, neu ansicrwydd, wrth wynebu'r dyfodol. Byddwn yn myfyrio felly heddiw yng nghwmni'r Salmydd ac yn wynebu heriau newid cenedlaeth yng nghwmni Eliseus.

Darlleniad: Salm 77 neu gellir canu *Salmau Cân Newydd*

Darlleniad: 2 Brenhinoedd 2:1-14

Unigrwydd a nerth

Fel Elias ([Cenn@d, 68](#)) yr wythnos diwethaf, mae'n rhwydd i ninnau hefyd syrthio i bwl o dristwch. 'Dim ond ni sydd ar ôl,' meddwn. 'Mae'r gelynon mor lluosog a phobl mor ddi-hid,' meddwn, a'r boblogaeth yn rhedeg ar ôl hen dduwiau ffasiynol llwyddiant a ffrwythiant a chynnydd. Newidiodd Baal ei enw, ond nid ei gymeriad, wrth newid ei god post!

Nid mewn arddangosfa o nerth yr Arglwydd y calonogwyd Elias ond yn nistawrwydd

llethol ei bresenoldeb a'r sylweddoliad fod gan yr Arglwydd waith iddo'i gwblhau cyn iddo fynd i'w wob.

Gwngalonni a nerth

Yn ein darlleniad heddiw gwelwn Eliseus y tro hwn, er iddo gael ei eninio gan y proffwyd mawr ei hun a'i alw, a'i gomisiynu i ddwyn tystiolaeth i'r Arglwydd, yn gwngalonni wrth sylweddoli bod oes Elias yn tynnu i'w therfyn (adn. 3, 6).

Gwyddai Elias hefyd fod awr yr ymwahanu yn nesáu a bod 'lorddonen' ei ymadawiad gerllaw, a gwyddai na allai Eliseus ei ddilyn mwyach ar hyd y llwybr hwn. Ni fynnai Eliseus ar y llaw arall gael ei bellhau o'r nerthoedd na'r cadernid a berthynai i'w athro.

A ninnau heddiw ... yng nghwmni'r Salmydd?

Perygl mawr i ni fyddai synied bod diwedd cyfnod penodol yn hanes yr Eglwys, rywsut, yn caniatáu i ninnau gefnu ar y ffydd a draddodwyd i'n gofal, na cholli gafael ar y grymoedd a roddodd fod i ni. Er ein hawydd i fod yn driw, fodd bynnag, gallwn gael ein llethu gan bryder neu ansicrwydd. Mynegodd y Salmydd bryder sy'n parhau i adleisio yn ein calonnau ninnau heddiw wrth i ni wynebu'r dyfodol: 'Hyn yw fy ngofid: A yw deheulaw'r Goruchaf wedi pallu?' (Salm 77:10)

Ac y mae ateb y Salmydd i'w bryderon hefyd yn ein rhyddhau ninnau rhag bod yn gaethion sy'n glynu'n slafaid wrth ryw draddodiad neu fynegiant o'n ffydd sy'n perthyn i fynegiannau diwyllianol oesau a fu!

Cofio

Fel y Salmydd, medrwn gofio am weithgarwch Duw yn ein tir, a chofio'i diriondeb a'i ffyddlondeb i'w addewidion: 'Af yn ôl i'r dyddiau gynt a chofio am y blynyddoedd a fu; meddyliaf ynof fy hun yn y nos, myfyriaf, a'm holi fy hunan, "A wrthyd yr Arglwydd am byth, a pheidio â gwneud ffafr mwyach? A yw ei ffyddlondeb wedi darfod yn llwyr, a'i addewid wedi ei hatal am genedlaethau? A yw Duw wedi anghofio trugarhau? A yw yn ei lid wedi cloi ei dosturi?"' (Salm 77:5-9)

Fel y Salmydd, medrwn atgoffa ein hunain na phallodd ei ras na'i rym, ei allu na'i barodrwydd i fugeilio'i bobl drwy'r anialwch i diroedd ffrwythlon ei fendith.

A dychwelyd at Eliseus!

Beth fyddem wedi ei ddweud pe baem ni yn sefyllfa Eliseus a bod Elias wedi ein holi ni, "Gofyn! Beth a wnaft iti cyn fy nghymryd oddi wrthyd?"

A fyddem wedi dweud wrth Elias, 'Gad i mi wybod y bydd yna bobl eraill, cynulleidfa oedd newydd hyd yn oed, yn aros gyda ni i'n galluogi i wynebu'r heriau sy'n ein hwynebu?' Neu a fyddem yn gobeithio y byddai digonedd o arian yn yr etifeddiaeth i'n galluogi i roesi mewn byd gwrthwynebus?

Mae ateb Eliseus yn eglur ac yn syml: "Rhodder imi gyfran ddwbl o'th ysbryd," meddai. Colodd cynulleidfa Effesus ei chariad cyntaf (Datguddiad 2:4). Clodd cynulleidfa lugoer Laodicea yr Arglwydd Iesu y tu allan i'w drysau (Datguddiad 3:20). Cynulleidfa heb ddyfodol yw cynulleidfa nad yw'n dyheu am dywalltiad grasol, cyfran ddwbl o ddoniau, o allu, o rym argyhoeddiadol, o lawenydd yr Ysbryd Glân. Cynulleidfa ar drengi yw cynulleidfa a gollodd bob archwaeth am ymweliadau'r Ysbryd Glân!

Cofio a dyheu

Mor wefreiddiol yw cofio am brofiad ein rhagflaenydd o'r grymoedd diwygiadol, byw:

Y cwmwl a ffodd; yr heulwen a dywynnodd, ni yfasom o rawnsypiau gwlad yr addewid; ac ni a wnaed yn llawen. Darfu anghrediniaeth; darfu euogrwydd; darfu ysbryd llwfr anghariad, cenfigen drwg-dyb, ynghyd a'r holl bryfed gwenwynig ag oedd yn ein blino ni o'r blaen; ac yn eu lle daeth cariad, ffydd, gobaidh, llawenydd ysbryd, a thyrfa hyfryd o rasmusau yr Ysbryd Glân. Ac erbyn hyn nid oedd yr oedfa ond dechrau; canys dyblwyd gweddi, canmol a bendithio, heb neb yn blasu ar y diwedd. Rhai yn awr yn wylo, rhai yn moli, rhai yn canu, rhai yn nefol chwerthin; a phawb yn synnu, yn caru, yn rhyfeddu gwaith yr Arglwydd.

(William Williams, *Drws y Society Profiad*)

O na fyddai mesur dwbl o'r un Ysbryd ar waith yn ein plith heddiw!

Gwedd

O Arglwydd Dduw, fel y Salmydd gynt, gofidiwn ynom ein hunain: 'A yw Duw wedi anghofio trugarhau?' Cyffeswn pa mor llugoer yw ein profiad ac mor arwynebol yw ein disgwyliad am ymyrraeth dy ras yn ein tir. Arglwydd Dduw, crea ynom ddymuniadau amdanat ti dy hun, ac am fesur dwbl o'r Ysbryd Glân. Rydym yn dyheu am flwyddyn ffafr yr Arglwydd. Tyrd, Ysbryd Glân. Amen.

Emyn 316: 'O tyred, lôr tragwyddol!'

RWJ

Cyhoeddir [Cenn@d](#) ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr [Cenn@d](#) yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

watcyn@cennad.cymru | hww@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com

www.cennad.cymru | [f](#) [CennadCymru](#) | [t](#) [@CennadCymru](#)